

## ENW

1. Enw'r mudiad yw YesCymru, sydd ambell waith yn cael ei dal fyrru i 'YC' neu'n cael ei gyfeirio ato fel 'mudiad'.

## AMCANION

2. Mae YesCymru yn fudiad ymgyrchu sydd â'r amcan i ennill annibyniaeth i Gymru er mwyn gwella'r ffordd y mae'r wlad yn cael ei llywodraethu. Cred YesCymru y byddai Cymru'n well yn ymdrin â materion ei hun, fel rhan o deulu Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach. Mae YesCymru yn credu mewn dinasyddiaeth gynhwysol, sy'n croesawu'r ffaith bod pob un sy'n dewis Cymru fel eu cartref – waeth eu hoedran, anabledd, eu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol – yn ddinasyddion llawn o'r Gymru newydd.

## PWERAU

3. Wrth geisio diwallu'r amcanion y cyfeirir atynt yng nghymal 2 (ond nid fel arall), dylai fod gan y mudiad y pwerau canlynol:-
  - (a) I ymgyrchu dros Gymru Annibynnol.
  - (b) I barhau ag unrhyw weithgareddau eraill sy'n hyrwyddo unrhyw un o'r amcanion uchod.
  - (c) I brynu, prydlesu, llogi, neu gaffael unrhyw eiddo neu hawliau mewn unrhyw ffordd arall sy'n addas ar gyfer gweithgareddau'r mudiad.
  - (d) I wella, rheoli, datblygu, neu ymdrin mewn unrhyw ffordd arall ag holl eiddo a hawliau'r mudiad, neu ran ohono.
  - (e) I werthu, gosod, llogi, trwyddedu, neu waredu holl eiddo a hawliau'r mudiad, neu unrhyw ran ohono, mewn unrhyw ffordd arall.
  - (f) I fenthyg arian, a chynnig diogelwch wrth gefnogi unrhyw fenthyciadau o'r math hwnnw gan y mudiad.
  - (g) I gyflogi staff sy'n cael eu hystyried yn briodol i ymdrin â gweithgareddau'r mudiad yn gywir, ac i ddarparu tâl pensiwn a/neu buddion eraill yn rhesymol i aelodau o staff, cyn-aelodau o staff a'u dibynyddion.
  - (h) I ymgysylltu ag ymgynghorwyr fel y'u hystyrir yn briodol o bryd i'w gilydd.
  - (i) I weithredu yswiriant o bob math (a ellir cynnwys yswiriant atebolrwydd swyddogion).
  - (j) I fuddsoddi unrhyw gyllid nad ydynt ei angen yn syth ar gyfer gweithgareddau'r mudiad fel yr ystyrir yn briodol (ac i waredu buddsoddiadau fel hynny, a'u hamrywio).
  - (k) I gydweithio â chyrff sector gwirfoddol eraill, awdurdodau lleol, adrannau ac asiantaethau llywodraethol y DU neu Gymru, a chyrff eraill, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a hyn oll gyda'r bwriad o hyrwyddo amcanion y mudiad.

- (l) I sefydlu a/neu cefnogi unrhyw mudiad, ac i gynnig rhoddion at unrhyw ddibenion sy'n addas o ran amcanion y mudiad.
- (m) I ffurfio unrhyw gwmni sydd ag amcanion tebyg i rai'r mudiad, ac, os yw'n briodol, trosglwyddo holl asedau ac ymgymeriadau i unrhyw gwmni o'r fath, neu unrhyw ran ohonynt (heb fod unrhyw daliad yn ofynnol gan y cwmni). Caiff unrhyw gwmni o'r fath ei gyfeirio ato yn y cyfansoddiad hwn fel "Cwmni Ymgysylltiol".
- (n) I wneud camau fel hynny fel yr ystyrir yn briodol at ddibenion codi arian ar gyfer gweithgareddau'r mudiad.
- (o) I dderbyn grantiau, rhoddion a chymynroddion o bob math (ac i dderbyn unrhyw amodau rhesymol sy'n gysylltiedig â nhw).
- (p) I wneud unrhyw beth all fod yn achlysurol neu'n gydnaws i hyrwyddo unrhyw un o amcanion y mudiad.

## **STRWYTHUR CYFFREDINOL**

4. Bydd strwythur y mudiad yn cynnwys:-

- (a) yr AELODAU – sydd â'r hawl i fynychu'r cyfarfod cyffredinol blynyddol (ac unrhyw gyfarfod cyffredinol arbennig) ac sydd â phwerau pwysig yn ôl y cyfansoddiad; yn benodol, mae'r aelodau'n ethol pobl i wasanaethu'r pwyllgor canolog a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â newidiadau i'r cyfansoddiad ei hun.
- (b) y PWYLLGOR CANOLOG – sy'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y cyfnod rhwng cyfarfodydd cyffredinol blynyddol, ac yn rheoli ac yn goruchwyllo gweithgareddau'r mudiad yn gyffredinol.
- (c) y GRWPIAU LLEOL AC ADRANNAU – a fydd ganddynt yr un amcanion ac egwyddorion sefydlu â YesCymru, ac mae'n bosibl y bydd yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion lleol. Bydd grwpiau lleol yn annibynnol ond yn gweithredu'n unol â rheolau'r cyfansoddiad hwn.
- (d) y PWYLLGOR CENEDLAETHOL – sy'n cynnwys aelodau'r pwyllgor canolog a chynrychiolwyr grwpiau ac adrannau lleol. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn a bydd ganddynt union yr un pwerau â'r pwyllgor canolog.

## **AELODAU**

### **Cymhwyso fel aelod**

- 5. I ddod yn aelod o YesCymru, mae'n rhaid i'r person gytuno ag amcanion / pwrpas y mudiad fel a nodwyd uchod. Gall yr unigolyn ganslo ei aelodaeth ar unrhyw adeg.
- 6. Bydd cyflogai'r mudiad yn gymwys i fod yn aelod.

### **Ymgeisio i fod yn aelod**

- 7. Mae aelodaeth yn ofynnol i ddod yn aelod o bwyllgor canolog a/neu pwyllgor cenedlaethol YesCymru ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyffredinol blynyddol (AGMs) / cyfarfodydd cyffredinol arbennig (SGMs).

8. Gall y pwyllgor canolog wrthod derbyn unrhyw berson fel aelod os ddaw'n amlwg bod y person hwnnw'n anghytuno ag amcanion / pwrpas y mudiad fel a nodwyd uchod. Gellir gwrthdroi'r penderfyniad gyda phleidlais drwy fwyafrif mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol (yn unol â chymalau 13 ac 15).
9. Bydd gwybodaeth aelodaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Ni fydd y rhestr o aelodau yn cael ei chyhoeddi o dan unrhyw amgylchiadau.

### **Tanysgrifio i fod yn aelod**

10. Mae modd dod yn aelod drwy wneud taliad misol, neu drwy wneud un taliad bob blwyddyn.

### **Cofrestr aelodau**

11. Bydd y pwyllgor canolog yn cadw cofrestr o aelodau, sy'n nodi enw llawn pob aelod, ei gyfeiriad a manylion cyswllt eraill, y dyddiad y cafodd ei dderbyn fel aelod, a dyddiad dod i ben ei aelodaeth.

### **Canslo eich aelodaeth**

12. Gall unrhyw un sy'n dymuno canslo ei aelodaeth wneud hynny ar unrhyw adeg drwy hysbysu ysgrifennydd y pwyllgor canolog.

## **CYFARFODYDD CYFFREDINOL**

### **Cyfarfodydd cyffredinol (cyfarfodydd aelodau)**

13. Mae'n rhaid i'r pwyllgor canolog drefnu cyfarfod cyffredinol blynyddol (AGM); nid yn llai na 10 mis, ac nid yn fwy na 16 mis ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf.
14. Bydd busnes pob cyfarfod cyffredinol blynyddol yn cynnwys:-
  - (a) adroddiad am weithgareddau'r mudiad gan y cadeirydd
  - (b) ystyriaeth o gyfrifon blynyddol y mudiad
  - (c) ethol/ail-ethol aelodau'r pwyllgor canolog, fel a nodwyd yng nghymal 30.
  - (d) argymhelliad o berson neu bobl i'w penodi neu eu tynnu fel cyfarwyddwr/wyr unrhyw Gwmni Ymgysylltiol.
  - (e) trafodaeth a phleidleisio dros unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad neu gynigion a gyflwynwyd gan aelodau.
15. Gellir trefnu cyfarfod cyffredinol arbennig (SGM/EGM) ar unrhyw adeg yn ôl cais gan unrhyw un o'r canlynol:
  - (a) y pwyllgor canolog
  - (b) nid yn llai na 10% o'r aelodaeth

- (c) nid yn llai na 50% o grwpiau ac adrannau lleol sy'n diwallu'r meini prawf fel a nodwyd yng nghymal 68.

### **Hysbysu am gyfarfodydd cyffredinol**

16. Dylid rhoi o leiaf 28 diwrnod clir o rybudd (yn unol â chymal 62) am unrhyw gyfarfod cyffredinol blynyddol neu gyfarfod cyffredinol arbennig. Rhaid anfon agenda i aelodau ar gyfer y cyfarfod o leiaf 14 diwrnod cyn y cyfarfod (yn unol â chymal 62), a rhaid iddo nodi natur cyffredinol unrhyw fusnes sydd angen ei ymdrin ag ef yn y cyfarfod ac, mewn achos o wneud cynnig i newid y cyfansoddiad, rhaid iddo nodi telerau'r newid arfaethedig hwn.
17. Mae'r cyfeiriad at "ddiwrnodau clir" yng nghymal 16 yn golygu, wrth gyfrifo'r cyfnod hysbysu, na ddylid cynnwys y diwrnod ar ôl y bydd yr hysbysiad yn cael ei anfon, na diwrnod y cyfarfod chwaith.
18. Bydd hysbysiad am bob cyfarfod cyffredinol yn cael ei roi (yn unol â chymal 62) i bob aelod o'r mudiad, ac i bob aelod o'r pwyllgor canolog.

### **Gweithdrefnau cyfarfodydd cyffredinol**

19. Ni ddylid ymdrin ag unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai bod cworwm yn bresennol; bydd cworwm ar gyfer cyfarfod cyffredinol yn cynnwys 20 aelod, a'r rhai hynny'n bresennol yn y cyfarfod.
20. Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud ar ôl amser dechrau'r cyfarfod cyffredinol – neu os, yn ystod y cyfarfod, mae presenoldeb y cworwm yn dod i ben – bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio i amser a lle a benodir gan gadeirydd y cyfarfod.
21. Bydd cadeirydd y mudiad yn gweithredu fel cadeirydd y cyfarfod cyffredinol; os nad yw'r cadeirydd yn bresennol, wedi ymddiswyddo, nid yn aelod mwyach, neu'n anfodlon gweithredu fel cadeirydd o fewn 15 munud ar ôl amser dechrau'r cyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn ethol person ymysg eu hunain a fydd yn gweithredu fel cadeirydd y cyfarfod hwnnw.
22. Gall cadeirydd cyfarfod cyffredinol ohirio'r cyfarfod i amser a lle y penderfynir ganddo ef/ganddi hi, gyda chaniatâd aelodau'r cyfarfod.
23. Bydd gan bob aelod un bleidlais, (boed wrth godi llaw neu bleidlais ddirgel) sy'n rhaid ei roi'n bersonol.
24. Pe bai nifer cytbwys o bleidleisiau dros unrhyw benderfyniad, neu'n ei erbyn, mae gan gadeirydd y cyfarfod yr hawl i bleidlais fwrw.
25. Bydd penderfyniad sy'n cael ei bleidleisio amdano mewn cyfarfod cyffredinol yn cael ei benderfynu drwy godi llaw oni bai bod pleidlais ddirgel yn ofynnol gan y cadeirydd (neu gan o leiaf pedwar aelod sy'n bresennol yn y cyfarfod); gellir gofyn am bleidlais ddirgel naill ai cyn i'r broses o godi llaw ddechrau, neu'n syth ar ôl i ganlyniad hynny gael ei gyhoeddi.
26. Pe gofynnir am bleidlais ddirgel, caiff hyn ei wneud yn y cyfarfod yn y ffordd y mae'r cadeirydd yn ei ofyn amdano; bydd canlyniad y bleidlais yn cael ei gyhoeddi yn y cyfarfod yr oedd y bleidlais wedi cael ei ofyn amdano.

# PWYLLGOR CANOLOG

## Uchafswm aelodau'r pwyllgor canolog

27. Uchafswm aelodau'r pwyllgor canolog yw 12.

## Cymhwysra

28. Ni fydd rhywun yn gymwys i gael ei enwebu fel aelod o'r pwyllgor canolog oni bai ei fod ef/ei bod hi'n aelod o'r mudiad ar ddiwedd y broses enwebu fel a nodwyd gan y pwyllgor canolog, ac ni fyddant yn gymwys i gael eu hethol i'r pwyllgor canolog oni bai ei fod ef/ei bod hi'n aelod o'r mudiad yn ystod yr etholiad.

## Ethol, ail-ethol

29. Ymhob cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd yr aelodau'n ethol cadeirydd, is-gadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd ac aelodau eraill i'r pwyllgor canolog (yn amodol ar gymal 27). Mae'n rhaid anfon ffurflen enwebu i aelodau o leiaf 14 diwrnod cyn y cyfarfod (yn unol â chymal 62), a dylid rhoi o leiaf 7 diwrnod i gyflwyno enwebiadau.
30. Pe bai unrhyw le gwag ar y pwyllgor canolog a bod mwy na 28 diwrnod cyn y cyfarfod cyffredinol nesaf, gall pwyllgor gynnal etholiad ar-lein i benodi eraill (yn amodol ar gymal 27); bydd pob aelod o'r mudiad yn cael eu gwahodd i bleidleisio yn yr etholiad.
31. Ymhob cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd holl aelodau'r pwyllgor canolog yn ymddeol o'u rolau – ond byddant yn gymwys i gael eu hail-ethol.

## Rôl aelod yn dod i ben

32. Bydd rôl aelod o'r pwyllgor canolog yn dod i ben os yw:-
- (a) ef/hi methu â chwblhau dyletswyddau ei rôl oherwydd rhesymau meddygol a bod disgwyl i hynny barhau am gyfnod yn hirach na chwe mis
  - (b) aelodaeth ef/hi o'r mudiad yn dod i ben
  - (c) ef/hi yn ymddiswyddo o'i rôl drwy hysbysu'r mudiad
  - (d) ef/hi yn absennol (heb anfon ymddiheuriad) o fwy na dau gyfarfod o'r pwyllgor canolog yn olynol, a bod y pwyllgor canolog yn penderfynu diswyddo ef/hi o'i rôl.

## Cofrestr o aelodau'r pwyllgor canolog

33. Bydd y pwyllgor canolog yn cadw cofrestr o aelodau'r pwyllgor canolog, yn nodi enw llawn pob aelod, ei gyfeiriad, y dyddiad y cafodd ei dderbyn fel aelod o'r pwyllgor canolog, a dyddiad dod i ben ei rôl fel aelod o'r pwyllgor canolog. Bydd enwau aelodau'r pwyllgor canolog ar gael ar y wefan swyddogol.

## Deiliaid rôl

34. Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM) yn ethol cadeirydd, is-gadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd. Bydd aelodau'r pwyllgor canolog yn ethol deiliaid rôl eraill ymysg eu hunain (pe bai angen) fel y bo'n briodol.

35. Bydd rôl yr holl ddeiliaid rôl yn dod i ben ar ddiwedd bob cyfarfod cyffredinol blynyddol, ond byddant yn gymwys i gael eu hail-ethol.
36. Bydd rôl person sydd wedi'i ethol i unrhyw rôl yn dod i ben os yw aelodaeth ef/hi o'r pwyllgor canolog yn dod i ben neu os yw ef/hi'n ymddiswyddo o'r rôl hwnnw drwy hysbysu'n ysgrifenedig.

### **Pwerau'r pwyllgor canolog**

37. Heblaw ei fod wedi'i ddarparu fel arall yn y cyfansoddiad hwn, bydd y mudiad a'i asedau a'i ymgymeriadau yn cael ei reoli gan y pwyllgor canolog, a all weithredu holl bwerau'r mudiad.
38. Gall cyfarfod o'r pwyllgor canolog lle y mae cworwm yn bresennol weithredu'r holl bwerau y mae modd i'r pwyllgor canolog eu gweithredu.

### **Gwrthdaro buddiannau personol**

39. Mae'n rhaid i'r aelod o'r pwyllgor canolog sydd â gwrthdrawiad o ran buddiannau personol mewn unrhyw drafodaethau neu drefniannau eraill y mae'r mudiad yn bwriadu ymdrin â nhw ddatgan y gwrthdrawiad hwnnw mewn cyfarfod o'r pwyllgor canolog; ni fydd ef/hi yn gallu pleidleisio (yn nhermau cymal 51) ar y cwestiwn p'un ai a ddylai'r mudiad ymwneud â'r trefniant hwnnw ai peidio.
40. At ddibenion cymal 39, ystyrir bod gan rywun wrthdrawiad buddiannau personol mewn trefniant os oes unrhyw bartner neu berthynas agos arall **neu** unrhyw gwmni y mae ef/hi yn bartner ohono **neu** unrhyw gwmni cyfyngedig y mae ef/hi yn gyfranddaliwr sylweddol neu'n gyfarwyddwr ohono.
41. Cyhyd â bod
- (a) ef/hi wedi datgan y gwrthdrawiad buddiannau personol
  - (b) ef/hi heb bleidleisio ar y cwestiwn a ddylai'r mudiad ymgymryd â'r trefniant perthnasol a
  - (c) bod gofynion cymal 43 yn cael eu cydymffurfio â nhw,
- ni fydd aelod o'r pwyllgor canolog yn cael ei wahardd rhag ymgymryd â threfniant â'r mudiad y mae ganddo ef/ganddi hi wrthdrawiad buddiannau personol ag ef (neu a ystyriwyd fel hynny yn ôl cymal 40) a gall ef/hi gadw unrhyw fuddiant personol y mae ef/hi yn ei gael o'i ran ef/rhan hi yn y trefniant hwnnw.
42. Ni all unrhyw aelod o'r pwyllgor canolog fod yn gyflogai (llawn amser neu ran amser) o'r mudiad, ac nid oes modd rhoi unrhyw dâl i unrhyw aelod o'r pwyllgor canolog gan y mudiad am gwblhau ei ddyletswyddau fel aelod o'r pwyllgor canolog.
43. Pan fydd aelod o'r pwyllgor canolog yn darparu gwasanaethau i'r mudiad neu pe byddant yn buddio o unrhyw dâl a wnaed i barti cysylltiedig am y fath wasanaethau, yna
- (a) mae'n rhaid i uchafswm y tâl gael ei nodi mewn cytundeb ysgrifenedig a rhaid iddo fod yn rhesymol

- (b) mae'n rhaid i aelodau'r pwyllgor canolog fod yn fodlon y byddai o fudd i'r mudiad ymgymryd â'r trefniant hwn (gan ystyried yr uchafswm hwnnw)
- (c) mae'n rhaid bod llai na hanner o aelodau'r pwyllgor canolog yn derbyn tâl o'r mudiad (neu'n buddio o dâl o'r math hwnnw).

44. Gall holl aelodau'r pwyllgor canolog gael eu talu ar gyfer costau teithio a chostau eraill sy'n rhesymol o ran eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y pwyllgor canolog, cyfarfodydd cyffredinol, neu gyfarfodydd pwyllgorau, neu'n gysylltiedig â'u dyletswyddau fel arall.

### **Gweithdrefnau cyfarfodydd y pwyllgor canolog**

- 45. Bydd y pwyllgor canolog fel arfer yn cyfarfod o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. Bydd dyddiadau a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor canolog yn cael eu penderfynu gyda phleidlais gan aelodau'r pwyllgor.
- 46. Bydd agenda cyfarfodydd y pwyllgor canolog yn cael eu nodi gan y cadeirydd, yn amodol ar awgrymiadau blaenorol gan aelodau'r pwyllgor.
- 47. Ni chaiff unrhyw fusnes ei ymdrin ag ef yng nghyfarfod y pwyllgor canolog heblaw bod cworwm yn bresennol; dylai'r cworwm gynnwys 4 aelod ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor canolog.
- 48. Os yw nifer aelodau'r pwyllgor canolog sydd â rolau'n disgyn o dan y rhif a benodwyd ar gyfer y cworwm, gall aelod(au)'r pwyllgor canolog sy'n weddill weithredu er mwyn trefnu cyfarfod cyffredinol yn unig.
- 49. Oni bai ei fod ef/ei bod hi'n anfodlon gwneud hynny, bydd cadeirydd y mudiad yn gweithredu fel cadeirydd ymhob cyfarfod y pwyllgor canolog y mae'n bresennol ynddo; pe nad yw'r cadeirydd yn anfodlon gwneud hynny neu pe nad yw'n bresennol o fewn 15 munud ar ôl amser dechrau'r cyfarfod, bydd aelodau'r pwyllgor canolog sy'n bresennol yn ethol rhywun i weithredu fel cadeirydd y cyfarfod hwnnw ymysg eu hunain.
- 50. Gall y pwyllgor canolog, fel y'i gwelir orau, ganiatáu unrhyw berson y maent yn ei ystyried yn briodol, i fynychu a siarad mewn unrhyw un o gyfarfodydd y pwyllgor canolog; i osgoi amheuaeth, ni fydd gan unrhyw berson o'r fath y'i gwahoddir i fynychu cyfarfod y pwyllgor canolog yr hawl i bleidleisio.
- 51. Ni all aelod o'r pwyllgor canolog bleidleisio mewn cyfarfod pwyllgor canolog (neu gyfarfod pwyllgor) dros unrhyw drafodaeth sy'n ymwneud â mater y mae ganddo ef/ganddi hi (neu a all fod ganddo ef/ganddi hi) wrthdrawiadau o ran buddiannau personol y mudiad; mae'n rhaid iddo ef/iddi hi adael y cyfarfod pan fydd eitem o'r fath yn cael ei thrafod.
- 52. At ddibenion cymal 51, ystyrir bod gan rywun wrthdrawiad buddiannau personol o ran mater penodol os oes gan unrhyw bartner neu berthynas agos arall **neu** unrhyw gwmni y mae ef/hi yn bartner ohono **neu** unrhyw gwmni cyfyngedig y mae ef/hi yn gyfranddaliwr sylweddol neu'n gyfarwyddwr ohono fuddiant personol o ran y mater hwnnw.

### **Ymddygiad aelodau'r pwyllgor canolog**

- 53. Wrth weithredu ei swyddogaethau fel aelod o bwyllgor canolog y mudiad, bydd pob aelod o'r pwyllgor canolog yn gweithredu er budd y mudiad; ac, yn benodol, mae'n rhaid

- (a) ceisio, yn ddiffuant, sicrhau bod y mudiad yn gweithredu mewn modd sy'n unol â'i amcanion (fel a nodwyd yn y cyfansoddiad hwn)
- (b) gweithredu â'r gofal a'r diwydrwydd sy'n rhesymol i'w ddisgwyl gan berson sy'n rheoli materion person arall
- (c) o dan amgylchiadau lle y mae'n bosibl y bydd gwrthdrawiad o ran buddiannau personol rhwng y mudiad ac unrhyw barti arall
  - (i) blaenoriaethu buddiannau personol y mudiad cyn rhai'r parti arall, wrth wneud penderfyniadau fel aelod o'r pwyllgor canolog
  - (ii) lle y bo unrhyw ddyletswydd arall yn atal ef/hi rhag gwneud hynny, datgelu'r gwrthdrawiad buddiannau personol hwnnw i'r mudiad a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau sy'n ymwneud ag aelodau eraill y pwyllgor canolog o ran y mater dan sylw.
- (d) Bydd disgwyl i holl aelodau'r Pwyllgor Canolog dderbyn ac arwyddo Cod Ymddygiad wrth gael eu derbyn i'r Pwyllgor. Bydd geiriad y cod wedi'i osod yn Atodiad B y cyfansoddiad hwn. Bydd yr Ysgrifennydd yn sicrhau y cedwir copïau wedi'u llofnodi.
- (e) Newidiadau i'r Cod Ymddygiad – Gall y Pwyllgor Canolog neu Gyfarfod Cyffredinol, gyda chytundeb mwyafrif syml, ddiwygio geiriad y Cod Ymddygiad. Bydd y geiriad diwygiedig fel arfer yn cynnwys aelodau fydd yn ymuno â'r Pwyllgor yn y dyfodol. Gall y Cyfarfod Cyffredinol fynnu bod holl aelodau'r Pwyllgor Canolog yn cytuno i ac yn arwyddo'r Cod Ymddygiad diwygiedig.

### **Dirprwyo i is-bwyllgorau**

- 54. Gall y pwyllgor canolog ddirprwyo unrhyw un o'u pwerau i unrhyw is-bwyllgor sy'n cynnwys un aelod o'r pwyllgor canolog neu'n fwy ac unrhyw bobl o'r fath (os unrhyw un) y mae'r pwyllgor canolog yn eu penodi; gallant hefyd ddirprwyo i gadeirydd y mudiad (neu ddeiliad unrhyw rôl arall) y pwerau y maent yn eu hystyried yn briodol.
- 55. Gall unrhyw ddirprwyo pwerau o dan gymal 54 fod yn amodol ar amodau o'r fath y mae'r pwyllgor canolog yn eu gosod ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu dirymu neu eu diwygio.
- 56. Bydd rheolau gweithdrefnau ar gyfer unrhyw is-bwyllgor yn cael eu gosod gan y pwyllgor canolog.

### **Rheoli cyfrifon a dal eiddo**

- 57. Bydd llofnod dau o'r tri llofnodwr sydd wedi'u penodi gan y pwyllgor canolog yn ofynnol mewn perthynas â holl weithgareddau'r cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu'r mudiad, heblaw am gadw cyllid a thrafodion ar-lein, y mae modd eu trafod gan y Trysorydd ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan un o'r llofnodwyr eraill; dylai o leiaf un o'r llofnodion fod yn llofnod gan aelod o'r pwyllgor canolog.
- 58. Bydd y teitl i'r holl eiddo (gan gynnwys unrhyw dir neu adeiladau, buddiant y tenant o dan unrhyw les – ac fel y bo'n briodol – unrhyw fuddsoddiadau) yn cael ei ddal naill ai yn enw cadeirydd, trysorydd ac ysgrifennydd y mudiad (ac olynwyr eu rolau) neu yn enw cwmni wedi'i enwebu sy'n dal y fath eiddo mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y mudiad; bydd unrhyw berson neu gorff y mae eiddo'r mudiad yn cael ei ddal yn ei enw'n gweithredu'n unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd o bryd i'w gilydd gan y pwyllgor canolog.

## **Cofnodion**

59. Bydd y pwyllgor canolog yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu gwneud o'r holl drafodaethau mewn cyfarfodydd cyffredinol, cyfarfodydd y pwyllgor canolog, cyfarfodydd y pwyllgor cenedlaethol a chyfarfodydd is-bwyllgorau; bydd cofnod o unrhyw gyfarfod yn cynnwys enwau'r bobl sy'n bresennol, a (os yw'n bosibl) dylai cadeirydd y cyfarfod ei lofnodi. Bydd yr ysgrifennydd yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r aelodau perthnasol yn dilyn pob cyfarfod, a hynny'n rhesymol brydlon.

## **Cofnodion cyfrifo a chyfrifon blynyddol**

60. Bydd y pwyllgor canolog yn sicrhau bod cofnodion cyfrifo priodol yn cael eu cynnal yn unol â'r holl ofynion statudol perthnasol.
61. Bydd y pwyllgor canolog yn paratoi cyfrifon blynyddol, gan gydymffurfio â'r holl ofynion statudol perthnasol; pe bai archwiliad yn ofynnol o dan unrhyw ddarpariaethau statudol neu os ydynt yn ei weld yn briodol fel arall, byddant yn sicrhau bod archwiliad o gyfrifon o'r fath yn cael ei gynnal gan archwilydd cymwysedig.

## **Hysbysiadau**

62. Bydd unrhyw hysbysiad sydd angen ei roi i aelod o dan y cyfansoddiad hwn yn ysgrifenedig; gellir rhoi'r fath hysbysiad naill ai'n bersonol i'r aelod, ei anfon drwy e-bost i'r aelod i'r cyfeiriad e-bost diweddaraf a roddwyd ganddo ef/ganddi hi i'r mudiad, neu ei anfon drwy'r post mewn amlen wedi'i rhagdalau a'i anfon i'r cyfeiriad diweddaraf a roddwyd ganddo ef/ganddi hi i'r mudiad.

## **Diddymu**

63. Os yw'r pwyllgor canolog yn penderfynu ei fod yn angenrheidiol neu'n briodol i'r mudiad ddiddymu, bydd yn trefnu cyfarfod aelodau; mae'n rhaid rhoi o leiaf 21 diwrnod o rybudd am y cyfarfod (yn nodi telerau'r penderfyniad arfaethedig).
64. Pe bai cynnig gan y pwyllgor canolog i ddiddymu'r mudiad yn cael ei gadarnhau gan fwyafrif o ddau draean o'r rhai hynny sy'n bresennol a bod pleidleisio yn y cyfarfod cyffredinol sy'n cael ei drefnu o dan gymal 63, bydd gan y pwyllgor canolog y pŵer i waredu unrhyw asedau a ddelir gan y mudiad, neu ar ei ran – a bydd unrhyw asedau sy'n weddill ar ôl bodloni dyledion a rhwymedigaethau'r mudiad yn cael eu trosglwyddo i gorff arall neu gyrff eraill sydd ag amcanion tebyg i rai'r mudiad; bydd y corff neu'r gyrff y mae'r fath asedau'n cael eu trosglwyddo iddo/iddynt yn cael ei benodi/eu penodi gan aelodau'r mudiad, yn ystod y broses ddiddymu, neu cyn hynny.
65. I osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw ran o incwm ac eiddo'r mudiad (heblaw at ddibenion elusennol y mudiad) yn cael ei dalu na'i drosglwyddo (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i'r aelodau, naill ai yn ystod bodolaeth y mudiad neu yn ystod y broses ddiddymu.

## **Newidiadau i'r cyfansoddiad**

66. Yn amodol ar gymal 67, gall y cyfansoddiad gael ei newid gan benderfyniad sy'n cael ei basio gan o leiaf dau draean o'r rhai hynny sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol, cyhyd â bod digon o rybudd am y cyfarfod, a'r penderfyniad, yn cael ei roi yn unol â chymalau 16, 17 ac 18.

67. Nid oes modd gwneud unrhyw newidiadau i gymalau 3, 42, 64 na 65 o'r cyfansoddiad os byddai hynny'n achosi i'r mudiad ddod i ben.

## **GRWPIAU LLEOL AC ADRANNAU**

68. (a) Bydd GRWPIAU LLEOL AC ADRANNAU yn cael eu cydnabod a byddant yn cael eu penodi'n briodol o dan y cyfansoddiad hwn os ydynt yn diwallu'r meini prawf canlynol:
- (i) cytuno â'r amcanion a nodwyd yng nghymal 2;
  - (ii) Wedi cysylltu â chadeirydd YesCymru'n dymuno derbyn statws fel Grŵp Lleol neu Adran;
  - (iii) cytuno â chanllawiau cyfryngau cymdeithasol YesCymru;
  - (iv) wedi cynnal cyfarfod â 5 aelod o YesCymru neu'n fwy, ac wedi ethol cadeirydd;
  - (v) wedi sefydlu cyfeiriad e-bost cyffredinol i'r grŵp, yn cynnwys enw'r grŵp;
- (b) Ddwywaith y flwyddyn, bydd y Pwyllgor Cenedlaethol (a nodwyd yng nghymal 69) yn trafod ac yn cytuno ar gydran deg o ffioedd aelodaeth ar gyfer grwpiau lleol ac adrannau.
- (c) Anogir Grwpiau Lleol ac Adrannau i recriwtio aelodau newydd, a bydd eu ffioedd aelodaeth i gyd yn cael eu casglu'n ganolog yn awtomatig. Yn y cyfamser, anogir Grwpiau Lleol ac Adrannau hefyd i godi arian all gael ei gadw naill ai gan y Grŵp Lleol neu Adran mewn cyfrif banc ar wahân, neu ei drosglwyddo i gyfrif banc y pwyllgor canolog.
- (d) Os oes mwy nag un grŵp lleol neu adran yn cystadlu mewn ardal neu maes daearyddol tebyg, gall y pwyllgor canolog benderfynu cyfuno'r grwpiau neu adrannau hyn ar unrhyw adeg, ac yna bydd cadeirydd newydd yn cael ei ethol gan aelodau o'r grŵp neu adran cyfunedig newydd.
- (e) Mae Grwpiau Lleol neu Adrannau a ystyrir eu bod yn gweithredu i wrthwynebu amcanion YesCymru ond yn gallu cael eu gwahardd drwy bleidlais drwy fwyafrif mewn cyfarfod cyffredinol.

## **PWYLLGOR CENEDLAETHOL**

69. (a) Mae'r PWYLLGOR CENEDLAETHOL yn cynnwys aelodau o'r pwyllgor canolog a hyd at ddau gynrychiolydd (wedi'u henwebu gan y Cadeirydd) grwpiau ac adrannau lleol sy'n diwallu'r meini prawf a nodwyd yng nghymal 68. Yn ystod y broses ethol, bydd gan bob grŵp lleol un bleidlais. Gofynnir i gadeiryddion grwpiau lleol i awgrymu eitemau i'w trafod a'u cynnwys yn yr agenda ymlaen llaw.
- (b) Bydd gan y pwyllgor cenedlaethol union yr un pwerau â'r pwyllgor canolog, a byddant yn dilyn yr un rheolau, gweithdrefnau a chod ymddygiad.
- (c) Bydd y pwyllgor cenedlaethol yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Penderfynir dyddiadau a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor cenedlaethol gan y pwyllgor

canolog. Dylid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i gadeiryddion y grwpiau lleol penodedig drwy e-bost.

## **RHEOLAU SEFYDLOG**

70. (a) Cynhelir holl gyfarfodydd Pwyllgor Canolog, Pwyllgor Cenedlaethol a Chyfarfodydd Cyffredinol YesCymru yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Pwrpas y Rheolau Sefydlog hyn yw cynnal trefn yn ystod cyfarfodydd, a bod yr holl aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod yn mynegi eu barn ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau.
- (b) Cynhelir cyfarfodydd grwpiau mewn ffordd y maen nhw'n ei ystyried yn addas, ond dylai sicrhau bod cyfle cyfartal i bawb gyfrannu at benderfyniadau.
- (c) Mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u gosod yn Atodiad A y Cyfansoddiad hwn.

## **Diwygio Rheolau Sefydlog**

71. Oni nodir fel arall, gellir diwygio Rheolau Sefydlog unrhyw bwyllgor ar unrhyw bryd gan fwyafrif syml o aelodau sy'n bresennol yn y pwyllgor perthnasol. Gall Cyfarfod Cyffredinol ddiwygio unrhyw ran o'r Rheolau Sefydlog drwy gytundeb mwyafrif syml yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio yn y cyfarfod hwnnw.

## **GWEITHDREFN CWYNO A DISGYBLU**

### **Cwynion**

72. (a) Ar ddisgresiwn y Pwyllgor Canolog gellir gwrthod, gwahardd neu derfynu aelodaeth unrhyw aelod a gyhuddir gan aelod arall o dorri rheolau, neu yr ystyrir eu hymddygiad, yn fewnol neu fel arall, i fod yn dwyn anfri ar YesCymru. Dylid cyflwyno cwyn o'r fath yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Pwyllgor Canolog, neu, os yw'r gwyn yn ymwneud â'r Ysgrifennydd, i'r Cadeirydd neu swyddog arall. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol yn unig y dylid diarddel aelod o un o Bwyllgorau YesCymru neu o'r mudiad yn ei gyfanrwydd.
- (b) Gellir gwahardd unrhyw aelod o'r Pwyllgor Canolog neu ddeiliad swydd arall sy'n destun camau disgyblu o dan (a) uchod, os yw'r gwyn yn ymwneud â'u gweithgareddau yn y rôl honno, o'r rôl honno fel rhan o'r broses ddisgyblu, ond caniateir iddynt aros yn aelod YesCymru. Byddai penderfyniad o'r fath yn dod i rym ar unwaith, ond gellir ei ddiddymu trwy apel neu benderfyniad dilynol gan gyfarfod cyffredinol.
- (c) Dylid gwneud penderfyniadau o'r math gyda chefnogaeth mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor mewn cyfarfod pwyllgor cyfansoddedig. Dylid rhoi gwybod, yn ysgrifenedig, i'r aelod am unrhyw gynnig o'r math, o leiaf 7 niwrnod cyn y penderfyniad, a bydd ganddynt hawl i ddadlau eu hachos yn bersonol neu yn ysgrifenedig at ystyriaeth y Pwyllgor Canolog. Dylid danfon datganiad ysgrifenedig am benderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor at yr aelod, a all gyflwyno apel i'r Pwyllgor Apêl.

### **Cofnodion o benderfyniadau Disgyblu**

73. Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gyflwynir yn ystod yr achos, ynghyd ag unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a wnaed gan y pwyllgor yn ystod proses y gwrandawriad, dan ofal Ysgrifennydd YesCymru ac i'w cadw gyda chofnodion YesCymru.

### **Pwyllgor Apêl**

74. (a) Bydd y Pwyllgor Canolog yn sefydlu Pwyllgor Apêl. Bydd tri aelod o YesCymru ar y Pwyllgor, a dim un ohonynt yn aelod o'r Pwyllgor Canolog.
- (b) Bydd y Pwyllgor Apêl yn clywed ac yn penderfynu ar apêl yn erbyn penderfyniad yn ymwneud â disgyblaeth aelodau dan gymal 72 y Cyfansoddiad hwn.
- (c) Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl yn derfynol oni bai i bleidlais gan ddau draean mewn Cyfarfod Cyffredinol orchfygu hynny.
- (d) Bydd aelodau'r Pwyllgor Apêl yn cael eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol YesCymru, a'r broses enwebu yr un peth â phroses enwebu y Pwyllgor Canolog. Byddant yn gwasanaethu am dair blynedd. Os bydd aelod o'r Pwyllgor Apêl yn ymddiswyddo yn ystod y cyfnod hynny gall y Pwyllgor Canolog benodi rhywun yn eu lle i wasanaethu nes y Cyfarfod Cyffredinol nesaf.
- (e) Os bernir bod etholiad mewn Cyfarfod Cyffredinol yn anymarferol, caiff y Pwyllgor Canolog drefnu etholiad ar-lein i lenwi unrhyw swyddi gwag ar y Pwyllgor Apêl, yn amodol i unrhyw reolau o'r fath a nodir yn y Rheolau Sefydlog.
- (f) Bydd y Pwyllgor Apêl yn dewis un o'u plith i Gadeirio pob cyfarfod.
- (g) Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Apêl yn unol â Rheolau Sefydlog priodol YesCymru.
- (h) Bydd tâl a chostau aelodau'r Pwyllgor Apêl yn unol â rheoliadau priodol aelodau'r Pwyllgor Canolog.
- (i) Gall unrhyw aelod sy'n destun penderfyniad disgyblu gan y Pwyllgor Canolog gyflwyno apêl ysgrifenedig yn erbyn y penderfyniad i Ysgrifennydd y Pwyllgor Canolog o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad terfynol.
- (j) Bydd yr Ysgrifennydd, o fewn 7 niwrnod, yn hysbysu'r Pwyllgor Apêl, ynghyd â chyflwyno datganiad y sawl sy'n apelio a datganiad ysgrifenedig o benderfyniad y Pwyllgor Canolog, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall, ac unrhyw esboniad gan y Pwyllgor am ei benderfyniad. Yn ogystal bydd yr Ysgrifennydd yn sicrhau bod yr Apelydd yn fodlon i'r pwyllgor ddod at benderfyniad ar sail y wybodaeth ysgrifenedig, neu os dymunant wrandawriad a chyfle i gyflwyno dadleuon ar lafar.

### **Cyfarfodydd y Pwyllgor Apêl**

75. Aelodau'r Pwyllgor Apêl fydd yn penderfynu ar ffurf eu cyfarfodydd. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd rhithiol sydd yn cynnwys trafodaethau e-bost neu gynadledda fideo neu e-bost a dulliau tebyg. Dylai holl aelodau'r Pwyllgor fod yn bresennol.

### **Penderfyniadau'r Pwyllgor Apêl**

76. Bydd penderfyniadau'r Pwyllgor ar sail mwyafrif syml a disgwyl iddo roi gwybod i'r Pwyllgor Canolog a'r Apelydd o fewn 7 niwrnod i ddyddiad y cyfarfod y gwnaed penderfyniad.

### **Cofnodion y Pwyllgor Apêl**

77. Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gyflwynir yn ystod yr apêl, ynghyd ag unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a wnaed gan y pwyllgor yn ystod proses y gwrandawriad, dan ofal Ysgrifennydd YesCymru ac i'w cadw gyda chofnodion YesCymru.

---

## **ATODIAD A – RHEOLAU SEFYDLOG AR GYFER CYFARFODYDD YESCYMRU**

1. Pwrpas  
Prif bwrpas y rheolau Sefydlog yw cynnal trefn yn ystod cyfarfodydd.
2. Cwmpas  
Mae'r Rheolau Sefydlog hyn yn berthnasol i holl Gyfarfodydd Cyffredinol YesCymru, cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol, Canolog ac Apêl, ac unrhyw is-bwyllgorau awdurdodedig.
3. Gollwng y Rheolau Sefydlog  
Gellir derbyn cynnig i ollwng y rheolau sefydlog at bwrpas penodol gan fwyafrif syml yr aelodau presennol. Bydd y Rheolau Sefydlog yn weithredol wedi i'r drafodaeth berthnasol ddod i ben.
4. Rheolau Cyffredinol pob cyfarfod
  - (a) Bydd y rheolau sefydlog a gytunwyd fel arfer yn berthnasol i bob cyfarfod. Bydd pob aelod mewn cyfarfod yn ymddwyn yn barchus a chwrtais gydag eraill.
  - (b) Cadeirydd y cyfarfod fydd yn gyfrifol am gadw trefn yn ystod y cyfarfod. Bydd penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol, ond bydd dewis gan bleidlais fwyafrifol ymysg y sawl sy'n bresennol i wrthdroi'r penderfyniad.
5. Rheolau Penodol ar gyfer Cyfarfodydd Cyffredinol
  - (a) I'w penderfynu
6. Rheolau Penodol ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor Cenedlaethol
  - (a) I'w penderfynu
7. Rheolau Penodol ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor Canolog
  - (a) I'w penderfynu
8. Rheolau Penodol ar gyfer Cyfarfodydd y Pwyllgor Apêl
  - (a) I'w penderfynu

## **ATODIAD B – COD YMDDYGIAD AELODAU'R PWYLLGOR CANOLOG**

Bydd holl aelodau'r Pwyllgor Canolog, wedi iddynt gael eu hethol, yn derbyn ac yn arwyddo'r Cod Ymddygiad hwn cyn ymgymryd â dyletswyddau'n ymwneud â'u haelodaeth.

Geiriad:

Rwyf i, (mewnosoder enw) \_\_\_\_\_ yn derbyn amcanion YesCymru, fel y'i nodir yng Nghyfansoddiad YesCymru.

Fel aelod o Bwyllgor Canolog YesCymru rwy'n cytuno i weithredu yn unol â'r rheolau a'r egwyddorion a nodir yn y Cyfansoddiad, ac er budd YesCymru.

Arwyddwyd \_\_\_\_\_ Dyddiad \_\_\_\_\_